

Heriau ynganu'r Gymraeg i ddysgwyr Sbaeneg iaith gyntaf: profiadau dysgwyr a thiwtoriaid yn y Wladfa

Marian Brosschot , Sarah Cooper 
a Peredur Webb-Davies 

Cyfeirnod:

Brosschot, M., Cooper, S., a Webb-Davies, P. (2026), 'Heriau ynganu'r Gymraeg i ddysgwyr Sbaeneg iaith gyntaf: profiadau dysgwyr a thiwtoriaid yn y Wladfa', *Gwerddon*, 41. <https://doi.org/10.61257/GWER4104>

Cyhoeddwyd: Mawrth 2026

Arfarnu:

Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cynodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hawlfraint:

© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler <http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/>.

Mynediad agored:

Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

Heriau ynganu'r Gymraeg i ddysgwyr Sbaeneg iaith gyntaf: profiadau dysgwyr a thiwtoriaid yn y Wladfa

Marian Brosschot , Sarah Cooper  a Peredur Webb-Davies 

Crynodeb: Mae'r erthygl hon yn trafod gwaith ymchwil ar heriau ynganu siaradwyr I1 Sbaeneg sy'n dysgu Cymraeg. Casglwyd y data ar ffurf grwpiau ffocws a holiaduron gyda thiwtoriaid a dysgwyr y Gymraeg yn y Wladfa, Patagonia. Cymerodd naw tiwtor ran mewn grwpiau ffocws, pump o'r Ariannin a phedwar o Gymru, gyda'r pedwar hyn â phrofiad o weithio yn y Wladfa. Cafwyd data holiaduron am heriau ynganu gan 24 o ddysgwyr. Mae'r canlyniadau'n dangos bod siaradwyr I1 Sbaeneg yr Ariannin yn wynebu heriau tra gwahanol i'w cyfoedion I1 Saesneg wrth gaffael y Gymraeg, ac y gellir egluro'r heriau hyn mewn perthynas â throsglwyddiad ffonolegol o'u hiaith gyntaf. Mae'r ymchwil yn esgor ar wahaniaeth barn rhannol rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr ac ystyrir rôl canfyddiad (*perception*) yn y broses o gaffael seiniau ail iaith. Argymhellir y byddai casglu data ar gefndir ieithyddol dysgwyr y Gymraeg yn allweddol i ddatblygiad y sector Dysgu Cymraeg a Chynllun yr Iaith Gymraeg yn Nhalaith Chubut er mwyn cynnwys a chefnogi dysgwyr o bob cefndir ieithyddol.

Allweddeiriau: Ynganu, dysgu Cymraeg, caffael ail iaith, Sbaeneg, Y Wladfa (Patagonia), trosglwyddiad ffonolegol, seineg.

Pronunciation challenges in Welsh for first language Spanish speakers: learners' and tutors' experiences in *y Wladfa*, Argentina

Summary: This article explores the pronunciation challenges faced by L1 Spanish speakers who are learning Welsh. Data was gathered through conducting focus groups and questionnaires with tutors and learners in *y Wladfa*, Patagonia. Nine tutors took part in the study, five from Argentina and four from Wales. Questionnaire data were collected from 24 learners. The study reveals that L1 Spanish speakers from Argentina face different challenges to their L1 English speaking counterparts. These pronunciation challenges can be attributed to phonological transfer from the native language. The research highlights a difference in the perceived difficulties of sounds between tutors and learners which calls into question the role of perception in the acquisition of speech sounds. A recommendation is presented for collecting data on learners' linguistic

backgrounds which will be crucial for developing Welsh language education for adults by supporting learners from all language backgrounds.

Keywords: Pronunciation, learn Welsh, second language acquisition, Spanish, *y Wladfa* (Patagonia), phonological transfer, phonetics.

1. Cefndir

Yn yr erthygl hon, cyflwynir canlyniadau astudiaeth ar heriau ynganu¹ dysgwyr y Gymraeg sy'n siarad Sbaeneg fel iaith gyntaf (I1). Bu'r ymchwil a wnaed yn y maes Cymraeg i oedolion yn trafod heriau ynganu dysgwyr drwy gynnal dadansoddiad acwstig (Müller a Ball 1999), drwy ddadansoddi recordiadau o waith arholiadau llafar (Brake 2012), drwy edrych ar brofiadau a barn tiwtoriaid yn y maes (Rees a Morris 2018) a thrwy holi'r dysgwyr eu hunain (Williams a Cooper 2021, Andrews 2011, Baker et al. 2011). Mae'r ymchwil uchod yn trafod heriau dysgwyr I1 Saesneg yn unig ac nid oes ymchwil benodol wedi edrych ar anawsterau caffael y Gymraeg ymysg siaradwyr ieithoedd eraill. Mae ystyried cefndir ieithyddol yr unigolyn yn allweddol wrth drafod heriau ynganu ail iaith (I2) gan fod I1 dysgwr yn medru dylanwadu ar ei brofiad o gaffael seiniau² newydd (Derwing a Munro 2015). Ar ben hynny, mae acen yr iaith gyntaf yn ogystal â nifer o ffactorau eraill yn medru dylanwadu ar brofiad unigolyn o gaffael seiniau (Derwing a Munro 2015, Piske et al. 2001).

Nid siaradwyr I1 Saesneg yn unig sy'n dysgu Cymraeg.³ Mae'r Wladfa yn yr Ariannin yn cynnig sefyllfa unigryw i astudio profiadau dysgwyr I1 Sbaeneg a thiwtoriaid sydd â phrofiad o weithio â'r dysgwyr hynny. Ceir gwersi Cymraeg mewn ysgolion ac yn y gymuned yn y Wladfa dan ofal athrawon lleol a thiwtoriaid o Gymru fel ei gilydd, gyda nifer o'r athrawon a'r tiwtoriaid hynny'n rhan o brosiectau fel Cynllun yr Iaith Gymraeg (Cyngor Prydeinig Cymru, 2018, 2019, 2020) a ariennir yn bennaf gan Lywodraeth Cymru. Mae tua 150 o oedolion ar gyrsiau Cymraeg yn y Wladfa bob blwyddyn (Cyngor Prydeinig Cymru 2018, 2019, 2020) er y bu gostyngiad yn sgil y pandemig (Cyngor Prydeinig Cymru 2024). Er y ceir ymchwil i ddysgwyr I1 Saesneg yng Nghymru, prin yw'r ymchwil ar sut y mae system seinegol wahanol y Sbaeneg yn effeithio ar gaffael ynganiad Cymraeg. Mae sefyllfa'r gymuned yn y Wladfa yn unigryw gan fod dysgwyr yn dod i gysylltiad â dau amrywiad ar y Gymraeg – tafodiaith leol y Wladfa sydd wedi ei dylanwadu gan y Sbaeneg, a'r Gymraeg a glywir gan athrawon o Gymru yn sgil y cynllun uchod. Mae deall heriau ynganu

- 1 Hyd oni nodir yn wahanol, defnyddir y term 'heriau ynganu' yn yr erthygl hon er mwyn cyfeirio at y seiniau hynny sy'n creu trafferth mewn rhyw ffordd i ddysgwyr iaith. Defnyddir 'dysgwr' a 'dysgwyr' er mwyn cyfeirio at unigolion sy'n astudio iaith ar hyn o bryd. Defnyddir y term 'siaradwr iaith gyntaf' yn hytrach na 'siaradwr brodorol' fel a ddefnyddiwyd o'r blaen yn y llynyddiaeth (gweler Williams a Cooper 2021) ar gyfer siaradwyr I1 iaith benodol er mwyn osgoi unrhyw gysylltiad ag ardal benodol.
- 2 Mae'r erthygl hon yn ymdrin â seiniau ac felly defnyddir yr wyddor seinegol ryngwladol (IPA). Yn yr achosion lle y gwneir hynny, lle y bo'n bosibl, rhoddir y llythyren Gymraeg sy'n cyfateb i'r sain hon mewn cromfachau triongl e.e. <r>.
- 3 Ar hyn o bryd, nid oes data ar gael gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gefndir ieithyddol dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyrsiau yng Nghymru.

penodol y dysgwyr hyn yn hanfodol am sawl rheswm. Yn gyntaf, gall helpu i ddatblygu adnoddau a strategaethau addysgu mwy effeithiol sy'n targedu anghenion penodol siaradwyr Sbaeneg. Yn ail, mae'n cynnig mewnwelediad i sut y mae systemau ffonolegol gwahanol yn rhyngweithio wrth ddysgu iaith leiafrifol mewn cyd-destun dwyieithog. Yn olaf, gall y canfyddiadau gyfrannu at ein dealltwriaeth ehangach o gaffael ail iaith mewn cymunedau iaith leiafrifol. Mae ymchwil flaenorol ar y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Sbaeneg yn y Wladfa wedi archwilio effaith ffonoleg a geirfa'r Sbaeneg ar y Gymraeg mewn siaradwyr dwyieithog gan fwyaf (e.e. Jones 1984; Rees 2021; Sleeper 2015, 2020; Bell 2017) ond nid o ran heriau ynganu sy'n wynebu'r rhai sy'n dysgu'r iaith. Nod yr erthygl hon yw archwilio beth yw'r heriau ynganu hynny gan dynnu sylw at bwysigrwydd amrywiaeth cefndiroedd ieithyddol dysgwyr wrth gaffael seiniau iaith, sef pwnc nad yw wedi cael sylw hyd yma yn y maes Cymraeg i oedolion.

1.1 Ymchwil flaenorol ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg

Prin yw'r data craidd ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg yng Nghymru. Mae ymchwil ar heriau ynganu dysgwyr iaith yn hanfodol i ddatblygu adnoddau, hyfforddi tiwtoriaid a diwedddaru cwricwlwm addysg y maes yn gyson. Casglodd Brake (2012) ddata o recordiadau arholiadau llafar CBAC gan 15 o ddysgwyr ar lefelau canolradd ac uwch⁴ a llunio rhestr o newidynnau ieithyddol i'w defnyddio mewn astudiaeth fwy yn y dyfodol, gyda'r bwriad o greu tacsonomeg o 'wallau'⁵ llafar cyffredin y gellid ei defnyddio fel sail i waith cynllunio pedagogaidd yn y maes Cymraeg i oedolion. Ymysg y categorïau o wallau a nodwyd ganddo yr oedd gwallau ffonolegol. Ymestynnodd Rees a Morris (2018) ar y gwaith gydag astudiaeth ddadansoddol yn casglu barn tiwtoriaid yn y maes Cymraeg i oedolion ar anawsterau dysgwyr i ynganu'r Gymraeg. Casglwyd y data drwy holiaduron a grwpiau ffocws a gofynnwyd i'r tiwtoriaid i ba raddau y maent yn cytuno bod seiniau neu elfennau ffonolegol penodol yn heriol i ddysgwyr Cymraeg. Crynhoir y canlyniadau fel a ganlyn.

- Cytseiniaid nad ydynt yn bodoli yn Saesneg rhai dysgwyr, e.e. [χ] <ch> a [ʃ] <ll>
- Rheolau ffonolegol nad ydynt yn Saesneg rhai dysgwyr, e.e. ynganu [r] <r> ar ôl llafariad, a phwyslais cyson ar y goben acennog
- Llafariaid syml a yngenir fel deuseiniaid yn Saesneg rhai dysgwyr
- Deuseiniaid nad ydynt yn bodoli yn Saesneg
- Amwysedd yn yr orgraff Gymraeg, e.e. y modd y gellir gwireddu <y> â'r seiniau [i]/[i] neu [ə] yn ddibynnol ar y cyd-destun.

(Rees a Morris 2018: 59)

4 Mae lefel Canolradd yn cyfateb i B1 ac mae lefel Uwch yn cyfateb i B2 yn y fframwaith dysgu Ewropeaidd (CEFR).

5 Dyma'r derminoleg a ddefnyddiwyd ym mhapur Brake. Gweler Brake 2012: 27–9 am drafodaeth ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn wall.

Sylwer mai heriau ynganu y mae siaradwyr I1 Saesneg yn eu hwynebu wrth ddysgu Cymraeg yw'r rhain. Mewn astudiaeth ar ganfyddiad dysgwyr o'u hacu a'u hynganiad eu hunain, holodd Williams a Cooper (2021) ar ffurf holiaduron farn 114 o siaradwyr newydd yn ne Cymru am gyfres o seiniau heriol yn y Gymraeg. Nododd pob un eu bod yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Roedd rhan helaeth o'r cyfranogwyr hyn yn dod o Gymru ($n=55$) ac o Loegr ($n=53$), gyda chwech yn dod o wledydd eraill y DU (yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon). Seiliwyd y seiniau heriol yn yr ymchwiliad hon ar astudiaeth Rees a Morris (2018) uchod. Gofynnwyd i'r dysgwyr raddio'r seiniau yn ôl pa mor anodd oeddent i'w hynganu, gyda'r anoddaf yn cael y sgôr uchaf. Rhoddodd y dysgwyr sgôr uwch nag unrhyw beth arall i ynganu <r> a hyd llafariaid. Esgorodd yr ymchwiliad hon ar ganlyniadau a gyferbynnai ag eiddo'r tiwtoriaid yn ymchwiliad Rees a Morris (2018). Un o'r trafferthion mwyaf yn ôl y tiwtoriaid oedd cyfnewid unsain Gymraeg am ddeusain Saesneg, e.e. ynganu <o> fel /oʊ/ yn hytrach nag /o/, fel yn 'fo'. Nid ymddengys bod y dysgwyr yn teimlo bod hyn yn broblem (Williams a Cooper 2021). Ystyria Williams a Cooper ddiffyg gallu'r dysgwyr i wahaniaethu rhwng y ddwy sain /oʊ/ ac /o/ a goblygiadau hyn o fewn fframweithiau dysgu ail iaith: gall amrywiaeth iaith gyntaf y dysgwr effeithio ar ei ganfyddiad o seiniau yn yr I2.

1.2 Ffactorau sy'n dylanwadu ar gaffael seiniau

Mae amryw o ffactorau yn medru dylanwadu ar lwyddiant unigolyn i gaffael seiniau I2, gyda'r rhain yn medru amrywio rhwng gwahanol ddysgwyr, sef amrywioldeb rhwng dysgwyr, ac o fewn yr un dysgwr, sef amrywioldeb dysgwr. Gall y ffactorau hyn gynnwys oedran dechrau dysgu, y cyfnod o amser a dreuliwyd mewn gwlad lle y siaredir yr I2, gwersi ffurfiol, gallu deallusol, cymhelliant ac amllder defnyddio'r I1 (Piske et al. 2001), er bod rhai ymchwilwyr yn pwysleisio *ansawdd y profiad ieithyddol* yn hytrach na hyd yr amser y maent wedi'i dreulio mewn gwlad lle y siaredir I2 (Derwing a Munro 2015) (hynny yw, faint o ryngweithio estynedig ac integreiddio y mae unigolyn yn ei wneud). Mae'r rhyngweithio hwn yn ffactor pwysig i'w ystyried yng nghyd-destun cymuned ail iaith fel a geir yn y Wladfa lle y mae'r siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif helaeth,⁶ a lle y mae siaradwyr dwyieithog yn ystyried mai'r Sbaeneg yw eu hiaith gryfaf (Bell 2017) ac yn defnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth neu gyda thwristiaid a ffrindiau o Gymru yn unig (Banegas a Roberts 2022). Ffactor arall sy'n dylanwadu ar gaffaeliad seiniau yw iaith gyntaf siaradwr. Gall trosglwyddiad, lle y mae strwythurau o un iaith yn cael eu cario drosodd i'r iaith arall, ddigwydd yn iaith dysgwr, sydd, ar lefel ffonolegol, yn golygu defnyddio seiniau'r I1 yn yr I2. Gall y trosglwyddiad hwn fod yn bositif (os yw'r seiniau'r un fath yn y ddwy iaith) neu'n negyddol (lle y mae'r dysgwr yn methu â chynhyrchu'r sain newydd oherwydd trosglwyddiad sain debyg yn ei I1) a gall hyn gael ei amlygu yn iaith dysgwr fel acen estron (Flege 1995) a all yn ei dro achosi camynganu, ffosileiddio (lle y mae camgymeriadau yn aros yn iaith y dysgwr a ddim yn newid), ac mewn achosion eithafol gall achosi camddealltwriaeth (Derwing a Munro 2015).

⁶ Nid oes data ar gael ar union nifer y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf yn y Wladfa.

Mae acenion gwahanol o fewn yr un iaith yn medru cael effaith hefyd, e.e. mae dysgwyr I1 Saesneg o Gymru sydd ag acen Gymraeg yn profi anawsterau gwahanol i'w cyfoedion Saesneg Prydeinig wrth ddysgu Sbaeneg (de Haro 2016) a hefyd wrth ddysgu Cymraeg (Müller a Ball 1999).

1.3 Cymraeg y Wladfa a'r Sbaeneg

Mae'r Wladfa yn ardal wasgaredig yn nhalaith Chubut yn yr Ariannin lle y sefydlwyd cymunedau Cymreig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel rhan o ymfudo o Gymru i wahanol ardaloedd o'r byd. Mae'r gymuned Gymraeg yn y Wladfa yn rhan fach iawn o'r gymuned Sbaeneg fwy o'i chwmpas ac mae tafodiaith Gymraeg y Wladfa wedi ei siapio dros y blynyddoedd gan ei chyswllt â'r Sbaeneg (Rees 2021) er bod lle i gredu y gall dylanwad athrawon ac ymwelwyr o Gymru gael effaith ar y dafodiaith hefyd (Sleeper 2020, Rees 2023). Siaredir *rioplatense*, sef math o Sbaeneg sy'n tarddu o ardal Buenos Aires, gan tua 70% o boblogaeth yr Ariannin (Coloma 2018). Fe'i siaredir yn bennaf yn ardaloedd y gorllewin, y canolbarth a'r de, sy'n cynnwys talaith Chubut. Mae astudiaethau ar Gymraeg y Wladfa wedi dogfennu gwahanol nodweddion sy'n ymddangos yn iaith ei siaradwyr yno, megis amrywiaethau ar batrymau geirfaol o ganlyniad i gyswllt â'r Sbaeneg (Rees 2021, Jones 1984) ac o ganlyniad i gydgyffyrddiad tafodieithol rhwng amrywiadau traddodiadol o Gymru (Rees 2023). Yn ogystal, mae astudiaethau wedi dangos dylanwad ffonoleg y Sbaeneg ar Gymraeg siaradwyr dwyieithog y Wladfa (e.e. Sleeper 2015, Bell 2017, Rees 2021, Jones 1984), gyda phresenoldeb ffonoleg y naill yn dod yn fwyfwy amlwg dros amser yn y llall (Rees 2021; Sleeper 2015, 2020).

i) Llafariaid

Mae nifer y seiniau llafarog rhwng y Gymraeg a'r Sbaeneg yn amrywio. Fel y gwelir yn Nhabl 1, mae i'r Gymraeg lawer mwy o seiniau llafarog na'r Sbaeneg. Mae 13 ffonem llafariad posibl yn y Gymraeg (Hannahs 2013, Mayr a Davies 2011) gyda'r cyfan ond un yn medru cael eu cyferbynnu o ran hyd. Nid yw'r ddwy sain /i/ ac i/ <u> i'w cael ym mhob tafodiaith yng Nghymru. Mae i'r Sbaeneg bum ffonem llafariad yn unig ac nid oes cyferbyniad o ran hyd nac ansawdd, ac nid ydynt ychwaith yn cyfateb yn union i seiniau llafarog y Gymraeg. Golyga hyn fod o leiaf dau lafariad Cymraeg yn rhannu'r un gofod acwstig ag un llafariad Sbaeneg (Bell 2017).

Yn ôl un astudiaeth ar allu siaradwyr dwyieithog y Wladfa i adnabod llafariad, daw Bell (2017) i'r casgliad fod y siaradwyr hyn yn dibynnu ar hyd llafariad yn unig i'w hadnabod, nid ar ansawdd, a phwysleisia pa mor anodd i siaradwr I1 Sbaeneg fyddai dysgu ynganu seiniau llafarog Cymraeg i safon brodorol.

Llafariaid						
	Llafariaid Blaen		Llafariaid Canol		Llafariaid Cefn	
	Cymraeg	Sbaeneg	Cymraeg	Sbaeneg	Cymraeg	Sbaeneg
Llafariaid Uchel (caeedig)	/i:/ ci /ɪ/ nid	/i/ mi “fy”	/i:/ tŷ /i/ punt		/u:/ cŵn /ʊ/ cwm	/u/ tu “ti”
Llafariaid Canolog	/e:/ mêl /ɛ/ melin	/e/ perro “ci”	/ə/ ysgol		/o:/ tŏn /ɔ/ ton	/o/ no “na”
Llafariaid Isel (agored)	/a:/ tad /a/ nad	/a/ parar “stopio”				

Tabl 1: Llafariaid y Gymraeg a Sbaeneg yr Ariannin (Addaswyd o Cooper 2020: tt. 53–4)

ii) *Cytseiniaid*

Mae'r Gymraeg a'r Sbaeneg yn amrywio o ran seiniau cytseiniol hefyd (gweler Tabl 2). Mae'r ddwy iaith yn rhannu'r un ffrwydrolion dwywefusol, gorfannol a felar ond mae'r seiniau hyn yn cael eu cynanu (*articulate*) yn wahanol. Yn draddodiadol yn y Gymraeg, mae'r ffrwydrolion /p, t, k/ wedi'u hanadlu ar ddechrau ac yng nghanol gair, sy'n golygu fod pwff o aer yn cael ei ryddhau ar ollyngiad y ffrwydrolyn, ac yn ddianadlog ar ddiwedd gair (Hannahs 2013). Mae'r ffrwydrolion /b, d, g/ fel arfer yn cael eu gwahaniaethu ar sail lleisio ond nid yw'r seiniau hyn wedi eu lleisio yn gyfan gwbl, ac yn sgil hynny mae Bell et al. (2021) yn dewis gwahaniaethu rhwng y ffrwydrolion ar sail anadliad yn hytrach na lleisio gan nodi /p^h, t^h, k^h/ <p, t, c> a /p, t, k/ <b, d, g> fel y tri phâr o ffrwydrolion cyferbyniol yn y Gymraeg, gyda'r diacritig h yn cynrychioli bod y ffrwydrolion wedi'u hanadlu. Nid yw'r ffrwydrolion yn y Sbaeneg wedi'u hanadlu (Coloma 2018) ac mae'r ffrwydrolion /b, d, g/ yn y Sbaeneg fel rheol wedi eu lleisio'n gyfan gwbl (Campos-Astorkiza 2012), sy'n golygu bod y tannau llais yn dirgrynu drwy gydol cynhyrchiad y seiniau hyn, nid fel y Gymraeg. Mae'r cytseiniaid hyn hefyd yn amrywio yn eu hynghaniad wrth ymddangos rhwng llafariaid: caiff /b/ ei gynhyrchu fel [β], caiff /d/ ei gynhyrchu fel [ð] <dd>, a chaiff /g/ ei gynhyrchu fel y ffrithiolyn felar [ɣ] (Coloma 2011), e.e. [ʃuβja] *lluvia* ‘glaw’, [naða] *nada* ‘dim byd’, [amiɣa] *amiga* ‘ffrind’. Mae ymchwil i'r cytseiniaid /p, t, k/ hyn yn y Wladfa wedi dangos gwahaniaeth rhwng siaradwyr Cymraeg o Gymru a siaradwyr Cymraeg o'r Wladfa wrth iddynt gynhyrchu seiniau (Sleeper 2015, 2020). Nid yw'r Sbaeneg yn gwahaniaethu rhwng y ffrithiolion gwefus-ddeintiol /f/ <ff> a /v/ <f> na'r ffrithiolion deintiol /θ/ <th> a /ð/ <dd> fel y mae'r Gymraeg. Yn wahanol i rai acenion yn Sbaeneg Sbaen, nid yw'r sain /θ/

<th> yn bodoli yn Sbaeneg yr Ariannin. Yn hytrach, yngenir /s/ <s> yn yr achosion hyn. Mae'r sain /h/ <h> ond yn bodoli fel aloffon i /s/ wrth ymddangos o flaen cytsain, e.e. [ehkuela] *escuela* 'ysgol' ac mae'r /s/ fel arall yn cael ei hynganu yn llai sisiol na Sbaeneg safonol (Coloma 2011). Mae Sbaeneg *rioplatense* hefyd yn defnyddio'r seiniau /ʒ/ neu /ʃ/ <sh> yn hytrach na'r /ʎ/ fel sy'n cael ei defnyddio yn Sbaeneg Sbaen, felly ceir [ʃo] (neu /ʒo/) <sho> yn lle [ʎo] <io> *yo* 'fi'.

iii) Goslef

Mae'r pwyslais yn y Gymraeg yn cael ei ystyried yn gyson iawn ac fel arfer mae'n disgyn ar y goben (Ball a Williams 2001) er bod ymchwil yn dangos bod goslef yn medru amrywio o fewn yr un iaith (e.e. Cooper 2015). Mae'r pwyslais ar eiriau Sbaeneg yn medru disgyn ar y sillaf olaf, y goben neu'r rhagoben, ond mae'n gyffredin i siaradwyr Sbaeneg yr Ariannin symud y pwyslais i sillaf olaf y gair (Coloma 2018).

Cytseiniaid										
	Dwy-wefusol	Gwefus- ddentiol	Deintiol	Gorfannol	Ôl-orfannol	Ôl-blyg	Taflodol	Felar	Wfwlar	Glotal
Ffrwydrolyn	p b p b		t d t d					k g k g		
Trwynolyn	m m m		n n n				ɲ	ŋ		
Tril			r r r							
Tap neu Fflap			[ɾ] ɾ							
Ffrithiolyn	[β]	f v f	θ ð [ð]	s s	ʃ ʒ ʃ ʒ			x [ɣ]	χ	h [h]
Ffrithiolyn ochrol			ɬ							
Dynesolyn							j	w		
Dynesolyn ochrol			ɭ [ʟ] ɭ							
Affrithiolyn					tʃ dʒ tʃ					

Tabl 2: Cytseiniaid y Gymraeg (ar y brig) a Sbaeneg yr Ariannin (ar y gwaelod). Dynodir aloffonau gan gromfachau sgwâr [].

iv) Effaith ffonoleg y Sbaeneg ar Gymraeg y Wladfa

Mae ymchwil ar Gymraeg y Wladfa wedi dogfennu dylanwad ffonoleg y Sbaeneg dros amser o ganlyniad i gyd-gyffwrdd ieithyddol. Mewn data o'r 1970au, mae Jones (1984) yn trafod amrywiaethau ar bum nodwedd sy'n ymddangos ymysg siaradwyr y Gaiman, gydag oedran ac amlygiad at y Gymraeg yn ddau ffactor sy'n chwarae rôl: mae'r siaradwyr hynaf yn dangos tueddiadau ynganu fel sy'n arferol yng Nghymraeg Cymru a'r siaradwyr ieuengaf yn dangos dylanwad ffonoleg Sbaeneg (Jones 1984, Rees 2021). Dadansoddodd Rees (2021) nodweddion ieithyddol y Gymraeg yn Chubut oddeutu hanner can mlynedd ar ôl Jones a phennodd bum newidyn ychwanegol gan egluro'r ffenomena hyn fel canlyniad i gyswllt hirdymor â'r Sbaeneg. Ymysg y newidynnau newydd ganddo y mae ffrithioli /d/ <d> i /ð/ <dd>, fel sy'n digwydd rhwng llafariaid yn y Sbaeneg a symud [v] o fod yn wefus-ddeintiol (nad yw'n bodoli yn y Sbaeneg) i fod yn wefusol [β] neu'n ffrwydrol [b]. Dengys hyn, medd Rees, fod Cymraeg Patagonia yn newid wrth iddi brofi mwy a mwy o ddylanwad y Sbaeneg a bod oedolion I2 na chawsant fagwraeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond sy'n dilyn cyrsiau Cymraeg yn Chubut, yn dangos mwy o ddylanwad y Sbaeneg yn eu ffonoleg.

1.4 Amcanion yr ymchwil

Er mwyn archwilio'r heriau ynganu sy'n wynebu dysgwyr y Gymraeg yn yr Ariannin, mae'r astudiaeth hon yn ceisio ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

- Beth yw canfyddiad dysgwyr a thiwtoriaid y Wladfa o heriau ynganu dysgwyr Cymraeg y Wladfa?
- Sut y mae canfyddiadau dysgwyr I1 Sbaeneg o heriau ynganu yn cymharu â chanfyddiadau eu tiwtoriaid?
- Beth yw'r seiniau mwyaf heriol i ddysgwyr Cymraeg y Wladfa yn ôl y dysgwyr a'r tiwtoriaid?

2. Methodoleg

Casglwyd y data ar gyfer yr astudiaeth hon drwy grwpiau ffocws a holiaduron. Cynhaliwyd dau grŵp ffocws ar-lein gyda thiwtoriaid yn y maes dysgu Cymraeg yn y Wladfa, ac ar sail y data datblygwyd holiadur ar-lein i ddysgwyr er mwyn deall rhagor am yr heriau ynganu. Cafwyd caniatâd moesegol gan Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Prifysgol Bangor, i gynnal yr ymchwil hon.

2.1 Cyfranogwyr

i) Y tiwtoriaid

Cymerodd naw o diwtoriaid ran yn yr astudiaeth. Roedd pump yn dod o'r Ariannin yn wreiddiol a phedwar o Gymru, gydag un o'r pedwar hyn yn cymryd rhan mewn sesiwn 1-1. Llenwyd yr holiadur cefndirol gan un ar ddeg tiwtor i gyd ond ni fedrodd dau gymryd rhan. Ni ddefnyddiwyd canlyniadau'r ddau unigolyn hwn. Roedd pob un a oedd o Gymru

yn wreiddiol naill ai wedi gweithio yn y Wladfa yn y gorffennol (am gyfnodau penodol rhwng 2014 a 2022) neu'n gweithio yno ar y pryd. Roedd trawstoriad o brofiad gweithio yn y maes gan y tiwtoriaid: roedd gan bedwar brofiad o dros ddeng mlynedd, dau rhwng chwech a deng mlynedd ac roedd gan y tri arall lai na phum mlynedd o brofiad, ond mwy na blwyddyn. O ran profiadau caffael y Gymraeg eu hunain, roedd y tiwtoriaid o Gymru i gyd wedi dysgu yn yr ysgol (44.4% $n=4$) a rhai yn y cartref hefyd (22.2% $n=2$). Roedd y tiwtoriaid o'r Ariannin (55.6% $n=5$) wedi dysgu drwy wersi'r cynllun gyda thri ohonynt yn nodi iddynt ddysgu fel oedolion.^{7 8} Nododd pawb eu bod yn 'hyderus' neu'n 'hyderus iawn' yn siarad Cymraeg ac yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Nodwyd gan bawb hefyd eu bod yn 'hyderus' neu'n 'hyderus iawn' yn addysgu ynganu yn y dosbarth, er bod 44.4% ($n=4$) yn cytuno eu bod yn teimlo y buasai mwy o arweiniad ar addysgu ynganu yn ddefnyddiol.

Grŵp	n
Tiwtoriaid o'r Ariannin	5
Tiwtoriaid o Gymru	4
Cyfanswm	9

Tabl 3: Nifer y tiwtoriaid yn yr ymchwil

ii) Y dysgwyr


Cymerodd 24 o ddysgwyr ran yn yr holiadur. Roedd 70.8% ($n=17$) yn ferched a 29.2% ($n=7$) yn ddynion. Roedd rhan helaeth o'r dysgwyr yn byw yn nhalaith Chubut (87.5% $n=21$) ac ar gwrs neu wedi bod ar gwrs Cymraeg yn ystod y flwyddyn y casglwyd y data (70.8% $n=17$). Roedd dau nad oeddent yn byw yn Chubut yn byw yn La Plata, ardal Buenos Aires, ac ni nododd y trydydd ym mha ardal yr oedd yn byw. O ran yr amser a roddwyd i astudio'r Gymraeg, roedd 21.7% ($n=5$) yn treulio dros bum awr yr wythnos yn gwneud hynny, 21.7% ($n=5$) arall yn treulio rhwng 2–5 awr yr wythnos, a 30.4% ($n=7$) yn treulio llai na dwy awr yr wythnos yn astudio'r Gymraeg. Dewisodd un dysgwr beidio ag ateb y cwestiwn hwn. Dechreuodd canran uchel o'r dysgwyr ddysgu'r iaith fel oedolion (79.2% $n=19$) ac mae dros hanner (54% $n=13$) yn nodi iddynt gael eu haddysgu gan diwtoriaid o'r Ariannin ac o Gymru fel ei gilydd.

Treuliodd pedwar dysgwr (16.7%) dros dri mis yng Nghymru gyda dau o'r rheiny wedi

⁷ O ystyried y gwahaniaethau a sefydlir gan Rees (2021) o ran mathau o siaradwyr Cymraeg yn y Wladfa, byddai'r tri thiwtor hyn yn disgyn i'r categori 'dysgwyr I2', sef unigolion a ddysgasant Gymraeg fel oedolion yn hytrach nag unigolion a gawsant fagwraeth Gymraeg. Yn ôl diffiniadau Rees, byddai'r tiwtoriaid eraill o'r Ariannin o bosibl yn 'ddysgwyr treftadol'. Gweler Rees (2021: 248) am y diffiniadau llawn.

⁸ Dylid nodi y gall gwersi'r cynllun gynnwys gwersi i blant a phobl ifanc hefyd, ond nid o reidrwydd mewn ysgol.

gwneud cwrs Cymraeg yno hefyd. Mae cyfanswm o chwe dysgwr (25%) wedi astudio ar gyrsiau yng Nghymru. Roedd gan dros hanner (59% $n=14$) ryw afael ar y Saesneg gyda'r gallu hwnnw'n amrywio o lefel ddechreuol i fod yn rhugl. Nododd 14 o ddysgwyr (59%) ryw lefel o allu mewn ieithoedd eraill hefyd, gan gynnwys Eidaleg, Portiwgaleg, Ffrangeg a Chatalaneg. Roedd trawstoriad o lefelau gan y dysgwyr yn yr astudiaeth hon (gweler Ffigur 4). Nododd 29.2% ($n=7$) eu bod ar lefel Mynediad, 37.5% ($n=9$) ar lefel Sylfaen, 4.2% ($n=1$) ar lefel Canolradd a nododd 20.8% ($n=5$) eu bod ar lefel Uwch.⁹ Nid oedd dau yn siŵr o'u lefel. Bu'n rhaid hepgor canlyniadau un dysgwr am nad oedd Sbaeneg yn iaith gyntaf iddo.



Ffigur 4: Lefelau iaith y dysgwyr

2.2 Deunyddiau

Mae grwpiau ffocws yn ddull casglu data sy'n caniatáu rhyngweithio a thrafod grŵp mewn modd naturiol sy'n gweddu ar gyfer yr ymchwil hon, lle y mae rhannu profiadau a thrafod barn yn bwysig. Yn ychwanegol at hyn, mae'n caniatáu i'r ymchwilydd arwain yn hytrach na chyfweld (Edley a Litosseliti 2022: t. 209), sy'n lleihau ymyrraeth ar ran yr ymchwilydd a all gyfyngu ar waith meddwl y cyfranogwyr (Krueger a Casey 2015: t. 67). Yn y grwpiau ffocws, defnyddiwyd cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig a symudwyd o gwestiynau cyffredinol eu naws at gwestiynau mwy manwl am seiniau penodol. Bwriad dechrau'n agored

⁹ Yn y fframwaith dysgu Ewropeaidd (CEFR), mae lefel Mynediad yn gyfystyr ag A1, Sylfaen yn A2, Canolradd yn B1 ac Uwch yn B2.

oedd rhoi amser i'r tiwtoriaid feddwl a myfyrio cyn eu holi'n fwy uniongyrchol am elfennau penodol. Rhoddir enghreifftiau o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd isod.

Cwestiynau Cyffredinol	Ydy dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn heriol? (Tiwtoriaid o'r Ariannin) Sut y mae dysgu yn yr Ariannin yn wahanol i ddysgu yng Nghymru? (Tiwtoriaid o Gymru) Faint o sylw 'dach chi'n ei roi i ynganu yn y dosbarth? Sut 'dach chi wedi dysgu'r sgiliau hyn i helpu pobl ynganu?
Cwestiynau Manwl	Be sy'n anodd i bobl wrth ddysgu Cymraeg? Pa fath o gamgymeriadau ynganu y mae'r dysgwyr yn eu gwneud? Ydy ynganu yn gwella wrth i'r lefel godi? Ydy person lefel Canolradd yn ynganu'n well na pherson ar lefel Mynediad?

Tabl 5: Enghreifftiau o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn y grwpiau ffocws

Er mwyn casglu data gan y dysgwyr, dyluniwyd holiadur ar-lein ar Online Surveys (gweler Atodiad 1).¹⁰ Yn yr holiadur, cyflwynwyd rhestr o seiniau yr oedd y tiwtoriaid yn credu eu bod yn heriol a chyflwynwyd y seiniau hyn ar ffurf tabl gydag enghraifft o ddau air cyffredin (y byddai dysgwyr Cymraeg ar lefel Mynediad yn debygol o'u hadnabod) a oedd yn cynnwys y sain mewn lleoliadau gwahanol o fewn y gair, gyda'r llythyren a oedd yn cyfateb i'r sain mewn print bras, e.e. 'd' fel yn *cerdded*, *da*; 'dd' fel yn *heddiw*, *ffordd*. Strwythurwyd y rhestr mewn ffordd a oedd yn cyflwyno seiniau tebyg nesaf at ei gilydd er mwyn tynnu sylw at eu tebygrwydd gan ysgogi'r dysgwyr i feddwl am y gwahaniaeth mewn ynganiad, e.e. rhoddwyd /d/ <d> ac /ð/ <dd> o dan ei gilydd yn y rhestr gan fod gwahaniaethu rhwng y ddwy sain hon yn heriol yn ôl y tiwtoriaid. Ar gyfer y dasg hon roedd y dysgwyr yn ymateb ar ffurf graddfa *Likert* er mwyn datgan pa mor hyderus yr oeddent yn ynganu pob sain (hyderus iawn, hyderus, ddim yn siŵr, ddim yn hyderus, ddim yn hyderus o gwbl). Er na thrafodwyd y sain /θ/ <th> yn y grwpiau ffocws, fe'i cynhwyswyd yn yr holiadur gan nad yw'n sain sy'n bodoli yn Sbaeneg yr Ariannin. I'r perwyl hyn hefyd cynhwyswyd y sain /h/ <h> gan ei bod yn codi fel anhawster yn y llenyddiaeth, er nad oedd yn drafferthus yn ôl y tiwtoriaid hyn. Rhoddwyd enghraifft o gytsain ar ôl /s/ (/sg/) er mwyn tynnu sylw at y ffaith fod ffonoleg y Sbaeneg yn dylanwadu ar ynganiad yr /s/ <s> yn y cyd-destun hwn. Rhoddwyd cwestiwn dewisol penagored ar ddiwedd yr holiadur er mwyn caniatáu mynegi barn neu ymhelaethu. Er mwyn tegwch a hygyrchedd i ddysgwyr â lefel isel o allu yn y Gymraeg, cyflwynwyd yr holiadur yn ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Sbaeneg.

¹⁰ Mae'r holiadur yn Atodiad 1 yn rhan o'r holiadur mwy a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth lawn.

2.3 Dull gweithredu

i) Dod o hyd i gyfranogwyr

Recriwtiwyd y tiwtoriaid ar gyfer y grwpiau ffocws drwy gysylltiadau personol yr ymchwilydd a thros y cyfryngau cymdeithasol. Gan fod athrawon o Gymru yn gweithio yn y Wladfa bob blwyddyn (Cyngor Prydeinig Cymru, 2018, 2019, 2020), penderfynwyd y byddai mewnbwn tiwtoriaid o'r Ariannin ac o Gymru fel ei gilydd yn werthfawr ac yn medru rhoi mewnwleidiad llawnach i'r profiad. Rhannwyd y grwpiau felly ar sail gwlad enedigol er mwyn manteisio ar iaith gyntaf a phrofiadau tebyg. Er mwyn casglu gwybodaeth gefndirol a chaniatáu i'r tiwtoriaid gydsynio i'r arbrwf, cyflwynwyd holiadur byr cyn cyfarfod. Gofynnwyd iddynt baratoi at y grŵp ffocws drwy feddwl am eu profiadau addysgu ac am unrhyw heriau ynganu a oedd yn codi ymysg eu dysgwyr, gan feddwl, os medrent, am enghreifftiau penodol. Diben gofyn am rywfaint o baratoi oedd medru gwneud yn fawr o'r sesiwn gan osgoi gorfod meddwl am atebion neu enghreifftiau yn y fan a'r lle.

ii) Cynnal a rheoli'r grwpiau ffocws

Cynhaliwyd y grwpiau ffocws drwy gyfrwng y Gymraeg dros Zoom ym mis Awst 2023 gyda'r ymchwilydd yn arwain, a recordiwyd y ddwy sesiwn er hwylustod dadansoddi. Cymerwyd y camau canlynol i reoli'r grwpiau ffocws. I ddechrau, croesawyd y cyfranogwyr yn unigol a rhoddwyd amlinelliad o fwriad y sesiwn. Yna cafwyd sgwrs agoriadol gyffredinol am eu profiadau dysgu gan roi cyfle i bob aelod gyfrannu. Wrth symud drwy'r drafodaeth, rhoddwyd amser i'r cyfranogwyr feddwl cyn ymateb ac fe'u gwahoddwyd i ymhelaethu lle y bo'n briodol. Sbardunwyd unigolion i ymateb neu fynegi barn pan wnaethpwyd datganiadau. Pan aethai'r sgwrs yn dawel neu pan symudai'r sgwrs yn rhy bell i ffwrdd o'r pwnc dan sylw, fe'u tynnwyd yn ôl gan yr ymchwilydd. Diolchwyd i'r cyfranogwyr am eu hamser ar ddiwedd y sesiwn a rhoddwyd amser i unrhyw sylwadau ychwanegol nas trafodwyd. Bu i un tiwtor o Gymru fethu'r grŵp ffocws ond gan fod yr unigolyn hwn yn diwtor profiadol ac yn awyddus i drafod y pwnc dan sylw, trefnwyd sesiwn 1-1 a dilynwyd yr un drefn rheoli a holi â'r grwpiau ffocws.

iii) Paratoi a dosbarthu holiaduron y dysgwyr

Yn dilyn dadansoddi'r grwpiau ffocws, penderfynwyd ar drefn cyflwyno'r seiniau heriol mewn holiadur i'r dysgwyr. Fe'i cyfieithwyd i'r Sbaeneg ac fe'i hanfonwyd at diwtoriaid ac athrawon y Wladfa i'w dosbarthu ymysg eu dysgwyr. Manteisiwyd ar gysylltiadau grwpiau cyfryngau cymdeithasol yr ymchwilydd yn ogystal er mwyn dosbarthu'r holiaduron. Rhoddwyd ffenest o un mis er mwyn casglu ymatebion ac yna dadansoddwyd y data.

2.4 Dadansoddi

Dadansoddwyd sgrysiâu'r grwpiau ffocws yn dilyn y camau canlynol:

1. Ymgyfarwyddo â'r data: gwnaed nodiadau yn ystod ac yn syth ar ôl

y sesiynau ac ychwanegwyd atynt eto wrth ailwylio'r recordiadau gan drawsgrifio dyfyniadau lle y bo'n briodol. Gwrandawyd ar y recordiadau sawl gwaith er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cynnwys.

2. Codio cychwynnol: nodwyd codau systematig cychwynnol (Braun a Clarke 2008) ar draws y data cyfan, gan ganolbwyntio ar elfennau a oedd yn berthnasol i'r cwestiynau ymchwil. Er enghraifft, codiwyd cyfeiriadau at heriau ynganu penodol a strategaethau dysgu.

3. Chwilio am themâu: Dadansoddwyd y codau er mwyn adnabod themâu ehangach posibl, gan greu tabl thematig cychwynnol er mwyn deall y berthynas rhyngddynt.

4. Diffinio themâu: Gwiriwyd bod y themâu'n gweithio mewn perthynas â'r dyfyniadau a'r set ddata gyfan. Ailstrwythurwyd rhai themâu lle y bo angen a labelwyd y themâu ag enwau a oedd yn adlewyrchu hanfod y cynnwys.

5. Adolygu: Adolygwyd y nodiadau, y codau a'r themâu er mwyn gwirio trylwreidd.

6. Cynhyrchu'r adroddiad: Dewiswyd dyfyniadau perthnasol i gefnogi pob thema, gan sicrhau eu bod yn cynrychioli'r data'n gywir.

Ar gyfer dadansoddi data meintiol yr holiaduron, lawrlwythwyd y canlyniadau i daenlen Excel a chyfrifwyd canrannau ar gyfer pob sain heriol. Integreiddiwyd y canfyddiadau meintiol ac ansoddol er mwyn creu darlun cyflawn o'r heriau ynganu.

3. Canlyniadau

Yn y rhan hon, cyflwynir canlyniadau'r astudiaeth. I ddechrau, cyflwynir yr heriau ynganu a godwyd yn y grwpiau ffocws a'r drafodaeth a gododd am bob her ynganu ymysg y tiwtoriaid. Cafodd rhai nodweddion fwy o sylw nac eraill (yn dibynnu ar y grŵp), gyda mwy o drafodaeth yn codi gydag ambell nodwedd. Yn ail, trown at ganlyniadau'r holiaduron a hyder y dysgwyr wrth ynganu'r seiniau hyn.

3.1 Grwpiau ffocws gyda thiwtoriaid

Gweler isod yr heriau ynganu sy'n wynebu dysgwyr y Gymraeg yn y Wladfa yn ôl y tiwtoriaid yn yr ymchwil hon. O dan y tabl, edrychir ar bob her yn unigol.

Crynodeb o'r heriau ynganu	
Her 1	Ynganu'r cytseiniaid 'diarth' /t/ <ll> a /r/ <rh>
Her 2	Ynganu 'y-dywyll' (<i>schwa</i>)
Her 3	Ynganu'r ffrwydrolion /ph, th, kh/ <p, t, c> a /g/ <g>
Her 4	Gwahaniaethu rhwng /d/ <d> ac /ð/ <dd>
Her 5	Ynganu <u> o ystyried orgraff y Sbaeneg
Her 6	Ynganu /χ/ <ch>
Her 7	Gwahaniaethu rhwng /b/ a /v/ <f>
Her 8	Ynganu /s/ cyn cytsain
Her 9	Goslefu

Tabl 6: Heriau ynganu dysgwyr I1 Sbaeneg yn ôl y tiwtoriaid

Her 1: Ynganu'r cytseiniaid 'diarth' /t/ <ll> a /r/ <rh>

Yr oedd yr holl diwtoriaid ar draws y grwpiau ffocws o'r farn fod y ffrithiolyn ochrol /t/ <ll> yn un o'r seiniau mwyaf heriol i'w dysgwyr. Mae'n sain sy'n achosi 'llawer o drafferth' yn ôl un tiwtor ac yn sain 'mor wahanol' i siaradwyr Sbaeneg yn ôl tiwtor arall o'r Ariannin. Ymysg dechreuwyr, yn fwy nac unrhyw lefel arall, hon yw'r sain fwyaf trafferthus, gyda rhai dysgwyr yn cynhyrchu /ʃ/ <sh> neu gyfuniad o'r ddwy sain /x/ felar ac /l/ ochrol (/xl/ <chl>) yn ôl un tiwtor. Pan ofynnwyd a yw addysgu'r sain hon yn anodd, cytunwyd bod plant yn medru caffael y sain heb fawr o help ond bod angen hyfforddiant ar oedolion i'w chynhyrchu'n llwyddiannus. Roedd cynhyrchu'r tril di-lais /r/ <rh> yn 'anodd' hefyd i bobl o'r Ariannin yn ôl un tiwtor. Mae absenoldeb /h/ fel ffonem yn gysylltiedig â heriau wrth gaffael <rh> (Jones 1984). Nid aethpwyd i fanylder wrth drafod y sain hon gan unrhyw grŵp ond roedd consensws clir ymysg yr holl diwtoriaid ei bod yn sain heriol, a hynny ymysg dechreuwyr yn arbennig.

Her 2: Ynganu 'y-dywyll' (*schwa*)

Cododd dwy elfen gyda'r her hon, sef cynhyrchu'r sain /ə/ <y> ei hun, nad yw'n sain sy'n bodoli o fewn seiniau'r Sbaeneg (Coloma 2018, Bell 2017), ac yna dylanwad orgraff y ddwy iaith. Mae amwysedd orgraff y Gymraeg yn golygu y gall <y> gael ei gwireddu fel /ə/ neu /ɪ/ ac mae'r graffem <y> yn y Sbaeneg yn cyfateb i sain /i/. Yn ôl y tiwtoriaid, mae tueddiad gan ddysgwyr Cymraeg yr Ariannin i gyfnewid y sain /ə/ <y> am y llafariad agored /e/ <e> a chynhyrchu /en er esgɔl/ yn lle /ən ər əsgɔl/ 'yn yr ysgol' ac /esgri'veni/ yn lle /əsgri'veni/ 'ysgrifennu'. Yn ôl un tiwtor o Gymru, roedd hyn yn ymddangos ar bob lefel ymysg ei dysgwyr. Wrth drafod yr her hon yn y grŵp o'r Ariannin, soniodd un tiwtor

mai ond yn lled ddiweddar y sylwodd ar y ffordd yr oedd hi ei hun yn ynganu <y> yn y modd hwn hefyd. Byddai ceisio newid yn ‘anodd iawn’, meddai, gan fod hyn yn rhan o’i hacen Archentaidd.

Her 3: Ynganu’r ffrwydrolion /p^h, t^h, k^h/ <p, t, c> a /g/ <g>

Cytunwyd ar draws y grwpiau ffocws fod ynganu’r cytseiniaid di-lais /p^h, t^h, k^h/ <p, t, c> â digon o anadliad yn heriol ar bob lefel. Ym marn un tiwtor o Gymru, dyma un o’r pethau sy’n achosi ‘cymysgedd mawr’ ymysg pobl sy’n medru’r Gymraeg i safon uchel. Nid yw’r seiniau hyn yn cael eu cynhyrchu ‘mor galed’ yn y Sbaeneg, meddai un tiwtor o’r Ariannin, a chyfeiriodd tiwtor arall at wahaniaeth yn ynganiad y sain /t/ <t> ar ddechrau’r gair *Trelew* yn y ddwy iaith, gydag Archentwyr yn cynhyrchu sain ‘mwy fel /d/’ yma, meddai. Dywedodd tiwtor arall fod yn rhaid ‘cryfhau’ y seiniau hyn yn y Gymraeg, ac ategwyd at hyn gan amryw o’r tiwtoriaid eraill wrth iddynt gyfeirio at y cytseiniaid di-lais yn y Gymraeg, gan ddefnyddio termau megis ‘caled’, ‘cryf’ a ‘cadarn’ i gyfleu’r dileisio a’r anadliad sy’n digwydd yn y Gymraeg.

Her 4: Gwahaniaethu rhwng /d/ <d> ac /ð/ <dd>

Roedd consensws clir yn y grŵp o Gymru fod medru cynhyrchu’r ddwy sain hon â digon o wahaniaeth rhyngddynt yn heriol iawn i ddysgwyr, a hynny ar bob lefel. Meddai un o’r tiwtoriaid bod ‘cymysgedd llwyr’ yma, a bod gwahaniaethu rhwng y ddwy sain yn rhywbeth sy’n wallus yn aml yn ysgrifenedig er bod y dysgwyr yn siarad yn rhugl. Meddai’r tiwtor hwn nad yw ei dysgwyr yn gwybod pa sain sy’n ‘feddal’ a pha sain sy’n ‘galed’. Tybiai tiwtor arall fod y ddwy sain yn swnio ‘bron union yr un fath’ i Archentwyr. Rhoddwyd yr enghreifftiau canlynol o eiriau sy’n heriol neu sy’n cael eu camynganu’n rheolaidd: ‘yn dda’, ‘cwrdd’, ‘diddorol’, ‘diwedd’. Mae’n rhaid nodi nad camgymeriadau treiglo yw’r gwallau a wneir yma ond heriau gyda chynhyrchu’r sain. Mynegwyd yng ngrŵp y tiwtoriaid o’r Ariannin fod gwybod pa un o’r ddwy sain i’w chynhyrchu ar ba adegau yn anodd a hynny am y credai un tiwtor nad oedd y sain /ð/ <dd> yn bodoli yn y Sbaeneg (er ei bod yn codi fel aloffon o /d/). Soniodd un tiwtor fod tueddiad i gytseiniaid ar ddiwedd geiriau ‘ddiflannu’ gyda’i dysgwyr. Cytunodd y tiwtoriaid yn y grŵp hwn fod hyn yn gyffredin iawn yn y Sbaeneg ac o’r herwydd fod dysgwyr yn gwneud yr un peth yn y Gymraeg. Pan holwyd a oedd hyn yn digwydd gyda chytseiniaid penodol yn unig, ni fedrent ymhelaethu ond rhoddwyd un enghraifft lle y mae’r sain /d/ <d> yn cael ei ffritholi i /ð/ <dd> ar ddiwedd gair yn dilyn llafariad: /karjað/ yn hytrach na /karjad/ ‘cariad’.

Her 5: Ynganu <u>

Roedd orgraff y Sbaeneg yn achosi trafferth gyda’r sain hon yn ôl nifer o’r tiwtoriaid, gyda dysgwyr yn gwireddu’r llythyren <u> fel [u] <w>, fel sy’n digwydd yn y Sbaeneg. Meddent mai ymysg dechreuwyr yn unig yr oedd hyn yn codi. Wrth drafod yr her hon, soniwyd bod dylanwad acenion gwahanol diwtoriaid o Gymru yn achosi i rai dysgwyr fabwysiadu’r /i/

<u> ogleddol. Yn ôl un tiwtor, roedd hyn yn arferiad diweddar ac yn disodli'r sain /i/ a fu'n fwy cyffredin yn y Wladfa.

Her 6: Ynganu /χ/ <ch>

Roedd y tiwtoriaid o Gymru o'r farn nad oedd caffael y sain hon ar y cyfan yn drafferthus, gan ei bod 'fwy neu lai' yr un fath yn y Sbaeneg meddent, ond treuliodd y tiwtoriaid o'r Ariannin fwy o amser yn trafod gan fod y sain hon, yn ôl un tiwtor, yn un o'r seiniau mwyaf heriol. Pan ofynnwyd i'r tiwtoriaid o'r Ariannin a yw'r sain sy'n debyg i /χ/ <ch> yn y Sbaeneg felly'n wahanol yn y Gymraeg, cytunodd pawb ar unwaith. Er mwyn cynhyrchu sain /χ/ <ch>, mae'n rhaid i ddysgwyr 'ei roi yn y gwddw' meddai un tiwtor, ac nid oes sain o'r fath yn bodoli yn Sbaeneg yr Ariannin. Trafodwyd sut y mae angen cryn ymarfer ar ddysgwyr er mwyn dod o hyd i'r sain hon a magu hyder wrth ei ynganu.

Soniwyd hefyd yn y ddau grŵp ffocws fod rhai dysgwyr ar lefel Mynediad yn 'Seisnigeiddio' y graffem <ch> i sain /tʃ/ fel sy'n digwydd mewn geiriau Saesneg megis /katʃ/ *catch* 'dal', a chynhyrchu /dioltʃ/ yn lle /diolχ/ 'diolch' a /go:tʃ/ yn lle /go:χ/ 'goch', ond dywedwyd mai dim ond ymysg dechreuwyr pur yr oedd hyn yn codi.

Her 7: Gwahaniaethu rhwng /b/ a /v/ <f>

Mae gwahaniaethu rhwng y ddwy sain hyn yn heriol yn ôl y tiwtoriaid o Gymru. Nid yw'r gwahaniaeth rhwng y ddwy sain 'yn glir' yn y Sbaeneg yn ôl un tiwtor o Gymru ac mae hynny'n achosi sefyllfa heriol i'r dysgwyr. Mae tueddiad i ddysgwyr ynganu sain sydd 'rhywle yn y canol' rhwng y ddwy, meddent. Nid yw'r ffrithiolyn gwefus ddeintiol /v/ <f> yn bodoli yn y Sbaeneg ac mae'r ffrwydrolyn dwywefusol /b/ yn cael ei leisio'n llwyr neu'n cael ei wireddu fel y ffrithiolyn dwywefusol [β] rhwng llafariad. Ni chodwyd yr her hon o gwbl gan y grŵp tiwtoriaid o'r Ariannin.

Her 8: Ynganu /s/ cyn cytsain

Yn Sbaeneg yr Ariannin mae tueddiad i <s> o flaen cytsain gael ei glotaleiddio i [h], felly byddai gair fel *mosca* 'pryfn' yn cael ei wireddu fel /mohka/ yn hytrach na /moska/. Yn ôl rhai tiwtoriaid o Gymru, mae tueddiad i rai dysgwyr drosglwyddo'r rheol ffonolegol hon a chynhyrchu geiriau fel /ehgol/ yn lle /æsgol/ 'ysgol' neu /kəhgi/ yn lle /kəsgɪ/ 'cysgu', gan gyfnewid /s/ am [h] cyn y gytsain /g/. Ni thrafodwyd pa un ai yw'n digwydd â chytseiniaid eraill. Ni chododd yr her hon yn y grŵp o'r Ariannin.

Her 9: Goslefu

Roedd goslefu yn y Gymraeg yn heriol yn ôl y tiwtoriaid yn y ddau grŵp. Meddent fod gwahaniaethu rhwng gofyn cwestiwn a dweud datganiad yn medru bod yn anodd i ddysgwyr. Dywedodd un tiwtor o'r Ariannin ei bod yn aml yn gorfod gofyn i'w dysgwyr *¿Me estas preguntando o me estas afirmando?* [Wyt ti'n gofyn cwestiwn i mi neu wyt ti'n gwneud


datganiad?]. Pan godwyd y pwnc gyda'r tiwtoriaid o Gymru, roedd un tiwtor o'r farn fod cwestiynau yn dueddol o fynd i lawr ar ddiwedd y frawddeg yn Sbaeneg yr Ariannin ac i fyny yn y Gymraeg ac mai hynny sy'n gwneud goslefu yn y Gymraeg yn heriol. Roedd y tiwtoriaid o Gymru yn teimlo bod elfen o'r oslef yn nodweddiadol o acen Patagonia, yn fwy nac unrhyw sain a drafodwyd. Roedd rhywbeth am yr oslef yng Nghymraeg Patagonia yn swnio 'o chwith' meddai un tiwtor. Pan holwyd hwy beth yn union a olygwyd wrth hynny, ni allent esbonio ymhellach.

3.2 *Holiaduron dysgwyr*

Yn dilyn casglu rhestr o'r heriau ynganu hyn gan y tiwtoriaid, rhoddwyd yr holiaduron ar waith er mwyn casglu barn y dysgwyr. Gofynnwyd iddynt fynegi ar raddfa *Likert* pum pwynt pa mor hyderus oeddent yn ynganu'r gwahanol seiniau heriol yn y Gymraeg (hyderus iawn, hyderus, ddim yn siŵr, ddim yn hyderus, ddim yn hyderus o gwbl). Cyflwynir y canlyniadau yn y graff isod o'r mwyaf heriol i'r lleiaf heriol yn ôl cyfanswm yr atebion 'hyderus' a 'hyderus iawn' a gafwyd ar gyfer pob sain. O edrych ar ganlyniadau'r holiaduron yn Ffigur 7, mae'n amlwg o'r blociau gwyrdd yn y graff fod niferoedd uchel o'r dysgwyr yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn yn ynganu pob sain. Trown yma at y canlyniadau fesul nodwedd ffonolegol.

i) Ffrwydrolyn

Mae 100% ($n=24$) o'r dysgwyr wedi nodi 'hyderus' neu 'hyderus iawn' ar gyfer y ffrwydrolyn /p/ <p>. Mae 22 (91.7%) yn 'hyderus' neu'n 'hyderus iawn' gyda /k/ <c> a /b/ , 21 (87.5%) gyda /t/ <t> a /g/ <g>, ac 16 (66.7%) gydag ynganu /d/ <d>. Mae pedwar (16.7%) dysgwr wedi nodi 'ddim yn siŵr' ar gyfer y ffrwydrolyn /d/ <d>.



Ffigur 7: Hyder y dysgwyr yn ynganu'r seiniau o'r mwyaf heriol i'r lleiaf heriol

ii) Ffrithiolion

Mae 23 (95.8%) o'r dysgwyr wedi nodi 'hyderus' neu 'hyderus iawn' gyda'r ffrithiolion /v/ <f>, /θ/ <th> a /χ/ <ch>, 22 (91.7%) gyda /h/ <h>, 19 (79.1%) gyda /l/ <ll> ac mae 17 (70.8%) wedi mynegi hyder yn ynganu /ð/ <dd>. Y sain sydd â'r nifer fwyaf yn mynegi diffyg hyder yn ei gylch yn y canlyniadau yw'r /l/ <ll>, gyda phum (20.8%) dysgwr yn nodi 'ddim yn hyderus'. Wrth edrych ar y data craidd, mae'n ymddangos bod pedwar o'r dysgwyr hyn ar lefel Mynediad a'r pumed ar lefel Sylfaen. Mae pedwar (16.7%) dysgwr hefyd wedi nodi 'ddim yn hyderus' neu 'ddim yn hyderus o gwbl' ar gyfer /ð/ <dd>. Mae'n rhaid cofio bod gwahaniaethu rhwng y <d> a'r <dd> orgraffyddol o bosibl ar waith yma hefyd, ac nid cynhyrchu'r seiniau eu hunain yn unig. Wrth edrych ar lefelau iaith y dysgwyr hyn, mae'n ymddangos fod tri dysgwr sy'n ddihyder gyda /ð/ <dd> ar lefel Uwch (gyda'r pedwerydd ar lefel Sylfaen).

iii) Llafariaid

Mae 19 (79.1%) o ddysgwyr wedi nodi 'hyderus' neu 'hyderus iawn' ar gyfer ynganu sain dau lafariaid, sef /ə/ <y> ac /i/ <u>. Mae 3 (12.5%) dysgwr wedi nodi 'ddim yn hyderus' ar gyfer /ə/ <y> ar lefel Mynediad (ond mae'r pedwerydd ar lefel Uwch). Mae dau ddysgwr sydd wedi mynegi diffyg hyder gyda /i/ <u> ar lefel Uwch.

iv) Clystyrau

Nododd 22 (91.7%) o ddysgwyr eu bod yn 'hyderus' neu'n 'hyderus iawn' gyda'r clwstwr /sg/ <sg>.

v) <r>

Gyda'r sain /r/ <rh>, mae 19 (79.1%) o ddysgwyr wedi mynegi hyder a thri (12.5%) wedi nodi 'ddim yn siŵr'. Ynghyd â /d/ <d> ac /ð/ <dd> uchod, dyma'r sain y mae'r dysgwyr fwyaf ansicr yn ei chylch.

vi) Heriau ychwanegol o'r holiadur

Daeth sylwadau i law yn yr ymatebion penagored ar ddiwedd yr holiadur ynglŷn â seiniau heriol. Ymhlith y sylwadau cafwyd cyfeiriad at y dryswch rhwng defnyddio <d> ac <dd>. Mae'n werth cofnodi'r sylw gan ei fod yn crisialu dwy o'r heriau yn yr orgraff:

'I fi, mae hi'n anodd iawn gwybod prydd [sic] i ddefneddio [sic] d, dd.'

Sylwer ar y defnydd o'r ffrithiolyn deintiol /ð/ <dd> yn hytrach na'r ffrwydrolyn gorfannol /d/ <d> yn y gair 'pryd', a hefyd y llafariad <e> yn hytrach nag <y> yn y gair 'defnyddio'. Mynegodd dysgwr arall a ddisgrifia ei hun yn 'siaradwr Cymraeg eitha' hyderus', fod <u> ac <i> yn 'peri cryn drafferth' iddi. Roedd ynganu'r 'llythyren "ng"' yn anodd yn y Gymraeg hefyd i ddysgwr arall, ac meddai pedwerydd dysgwr fod cofio sut i ynganu seiniau nad

ydynt i'w cael yn y Saesneg na'r Sbaeneg yn heriol wrth ddarllen.

4. Trafodaeth

Nod yr ymchwil hon oedd cofnodi heriau ynganu dysgwyr I1 Sbaeneg yr Ariannin sy'n dysgu'r Gymraeg yn y Wladfa, gan nad oes astudiaeth flaenorol wedi ei chynnal ar heriau ynganu dysgwyr I1 Sbaeneg. Mae'r astudiaeth hon yn cynnig mewnwelediadau tiwtoriaid a dysgwyr fel ei gilydd am y tro cyntaf. Yn y rhan hon, trafodir prif ganfyddiadau'r ymchwil, cyn troi at oblygiadau ehangach y gwaith a thrywyddau ar gyfer ymchwil bellach.

4.1. Prif ganfyddiadau

i) Gwahaniaethau rhwng tiwtoriaid a dysgwyr

Mae'r canlyniadau'n dangos patrwm diddorol o heriau ynganu Cymraeg ymhlith dysgwyr o Batagonia. Yn gyntaf, mae'n werth nodi'r gwahaniaeth rhwng y tiwtoriaid a'r dysgwyr. Nid yw'r dysgwyr yn cytuno â'r tiwtoriaid o ran pa seiniau sy'n heriol, sef rhywbeth sydd wedi codi yn y llenyddiaeth o'r blaen (Williams a Cooper 2021). Er bod tiwtoriaid wedi nodi anawsterau sylweddol gyda seiniau penodol fel /t/ <ll>, /d/ <d>, a /χ/ <ch>, mae llawer o ddysgwyr yn adrodd lefelau hyder cymharol uchel wrth gynhyrchu'r seiniau hyn. Mae'r canfyddiad hwn yn cyd-fynd â'r hyn a nodwyd gan Williams a Cooper (2021) yn eu hastudiaeth ar ynganu ymhlith dysgwyr yn ne Cymru. Gwelwyd gwahaniaeth tebyg rhwng canfyddiadau dysgwyr yn eu hastudiaeth hwy a thiwtoriaid yn astudiaeth Rees a Morris (2018). Fel y nododd Williams a Cooper (2021), gallai hyn awgrymu diffyg gallu'r dysgwyr i wahaniaethu rhwng seiniau tebyg, sy'n ffenomen a gododd mewn astudiaethau caffael ail iaith (Flege 1995, Derwing a Munro 2015, Van Leussen ac Escudero 2015). Yn ail, mae'n werth nodi'r gwahaniaeth rhwng tiwtoriaid a ddaw o Gymru yn wreiddiol a thiwtoriaid a ddaw o'r Ariannin yn wreiddiol. Er nad nod yr ymchwil hon oedd archwilio'r gwahaniaethau rhwng y ddau grŵp o diwtoriaid, mae lle i dynnu sylw at rai elfennau. Cafodd rhai seiniau sylw gan un grŵp ond nid y grŵp arall, e.e. ni chodwyd yr her o wahaniaethu rhwng ynganu /b/ ac /v/ <f> (Her 7 uchod) a chyfnewid /s/ am /h/ (Her 8 uchod) yn y grŵp o'r Ariannin. Roedd ynganu <y> fel /e/ (Her 2 uchod) yn cael ei ystyried gan rai o'r tiwtoriaid o'r Ariannin fel rhan o'r acen Archentaidd ac yn ddiweddar iawn daeth un tiwtor yn ymwybodol ei bod yn gwneud hyn ei hun. Mae hyn yn adlewyrchu ymchwil Rees (2021) lle y mae absenoldeb /ə/ i'w weld yn iaith siaradwyr I2 yn y Wladfa. Ar y llaw arall, nid oedd y grŵp o Gymru yn teimlo bod cynhyrchu /χ/ <ch> (Her 6 uchod) mor heriol i ddysgwyr y Wladfa ag yr oedd y tiwtoriaid o'r Ariannin yn ei deimlo. Coda hyn gwestiynau diddorol ynglŷn â'r hyn yw canfyddiad dysgwyr o seiniau iaith o gymharu â chanfyddiad eu tiwtoriaid, ond hefyd beth yw dylanwad cefndir ieithyddol tiwtoriaid ar eu canfyddiad o seiniau heriol. Yng nghyd-destun y Wladfa, mae'n codi'r cwestiwn o beth yw dealltwriaeth tiwtoriaid, dysgwyr a siaradwyr dwyieithog y Wladfa o nodweddion tafodiaith Gymraeg Patagonia a beth yw eu hamlygiad at y dafodiaith hon. Mae ymchwil flaenorol yn awgrymu bod cynhyrchiad rhai seiniau'n amrywio rhwng siaradwyr Cymraeg Cymru a siaradwyr

Cymraeg y Wladfa (Sleeper 2020, Rees 2021, Jones 1984) a bod ffonoleg siaradwyr I2 yn dangos mwy o ddylanwad y Sbaeneg, gyda dylanwad acenion athrawon o Gymru i'w weld hefyd.

ii) *Seiniau penodol*

Mae canlyniadau'r ymchwil hon yn dangos bod rhai seiniau Cymraeg yn heriol i ddysgwyr yn y Wladfa a bod yr heriau hyn yn tarddu o ddylanwad ffonoleg eu hiaith gyntaf. Gellir crynhoi'r seiniau heriol sy'n codi yn yr ymchwil hon fel a ganlyn:

- Seiniau nad ydynt yn bodoli yn ffonoleg y Sbaeneg: /t/ <ll>, /r/ <rh>, /χ/ <ch>, /ə/ <y>
- Seiniau sy'n amrywio yn eu cynhyrchiad rhwng y Gymraeg a'r Sbaeneg: /p, t, k/ <p, t, c>, /b, d, g/ <b, d, g>
- Seiniau nad ydynt yn ffonemau yn y Sbaeneg: /ð/ <dd>
- Rheolau ffonolegol acen benodol o'r Sbaeneg e.e. /s/ o flaen cytsain yn glotaleiddio i [h]
- Gwahaniaethau orgraffyddol: <u>, <y>
- Amrywiad o ran goslef yn y ddwy iaith.

Wrth edrych ar yr heriau fesul nodwedd ffonolegol, mae'n amlwg bod ffrithiolion fel /χ/ <ch> a /v/ <f> yn parhau i fod yn heriol ar draws lefelau dysgu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried nad yw'r seiniau hyn yn bodoli yn y Sbaeneg (Coloma 2018), sy'n cefnogi'r syniad a gyflwynwyd gan Flege (1995) am drosglwyddo negyddol, lle y mae dysgwyr yn ei chael yn anodd cynhyrchu seiniau nad ydynt yn bodoli yn eu I1. Mae'n amlwg bod ffrwydrolion yn heriol hefyd yn ôl y tiwtoriaid. Mae hyn yn berthnasol iawn o ystyried bod yr holl ffrwydrolion yn bodoli yn y ddwy iaith ond fod amrywiaeth sylweddol yn eu cynhyrchiad. Mae ffrwydrolion, a ffrithiolion, yn ymddangos ar fwy o gontinwwm o amrywiaethau mewn systemau ffonolegol Sbaeneg (Rees 2021) sy'n gwneud gwahaniaethu yn y Gymraeg yn heriol. Fel y nododd Bell (2017), mae'r gwahaniaeth rhwng systemau ffonolegol y Gymraeg a'r Sbaeneg yn achosi heriau sylweddol i ddysgwyr.

Mae'n ymddangos o'r sgysiau â'r tiwtoriaid fod goslefu yn y Gymraeg hefyd yn heriol i ddysgwyr. Fel y nododd Rees a Morris (2018), roedd rythm a goslef yn achosi anawsterau i ddysgwyr I1 Saesneg. Mae'n ymddangos fod heriau goslefu yn medru amrywio yn ôl acen I1 dysgwyr hefyd (Pulman-Slater 2023) felly byddai ystyried rhythm a goslef ieithoedd cyntaf dysgwyr yn allweddol mewn unrhyw ymchwil bellach ar ddylanwad y Sbaeneg ar ddysgwyr y Gymraeg.

iii) *Amrywioldeb dysgwyr*

Mae canlyniadau'r ymchwil hon yn awgrymu'n gryf nad yw pob dysgwr Cymraeg yn wynebu'r un anawsterau wrth ddysgu'r iaith. Mae'n ymddangos bod siaradwyr I1 Sbaeneg

yr Ariannin yn profi heriau tra gwahanol i'w cyfoedion I1 Saesneg wrth ddysgu Cymraeg (Rees a Morris 2018). Dwy sain yn unig sy'n gyffredin i'r ddau grŵp o ran her, sef /ɪ/ <ll> a /r/ <rh>, sy'n seiniau nad ydynt yn bodoli yn y Sbaeneg nac yn y Saesneg. Dim ond i ddechreuwyd y mae'r seiniau hyn yn ymddangos yn heriol yn ôl y tiwtoriaid yn yr ymchwil hon ac mewn ymchwil i siaradwyr I1 Saesneg (Rees a Morris 2018), sy'n awgrymu bod y seiniau hyn wedi eu meistroli erbyn lefelau uwch. Yn ôl modelau dysgu iaith, gall seiniau sy'n dra gwahanol i seiniau I1 siaradwr fod yn haws i'w caffael (Flege 1995) tra bod seiniau tebyg iawn yn medru bod yn fwy heriol i'w canfod. Gall hyn gyfrif felly am rwyddineb cymharol y ddwy sain hyn i'w dysgu ac ar y llaw arall natur heriol seiniau megis /ə/ <y>, gwahaniaethu rhwng /d/ <d> ac /ð/ <dd> ac ynganu'r cytseiniaid di-lais /p, t, k/ <p, t, c>, oherwydd eu tebygrwydd i seiniau'r iaith gyntaf. Roedd y seiniau heriol hyn yn drafferthus ar bob lefel yn ôl y tiwtoriaid.

Dengys hyn bwysigrwydd amrywiaeth I1 y dysgwr yn y broses o gaffael seiniau ail iaith. Adlewyrcha hyn ganfyddiadau Piske et al. (2001) a Derwing a Munro (2015) am amrywioldeb rhwng dysgwyr ac o fewn yr un dysgwr. Mae hefyd yn cyd-fynd â'r canfyddiadau gan Rees (2021) fod dysgwyr I2 yn y Wladfa yn dangos mwy o ddylanwad Sbaeneg yn eu ffonoleg na siaradwyr a fagwyd yn y Gymraeg.

Mae un nodwedd benodol nad yw wedi codi yn y llenyddiaeth o'r blaen, sef ynganu'r ffrithiolyn glotal [h] cyn cytsain yn hytrach na'r ffrithiolyn gorfannol /s/, e.e. cynhyrchu [əhgɔl] yn lle /əsgɔl/ 'ysgol'. Ar ben hynny, mae'n ymddangos yn her benodol i siaradwyr ag acen Sbaeneg *rioplatense*, yn hytrach nag acenion Sbaeneg eraill. Gellir dweud bod y nodwedd hon yn tarddu o batrwm ffonolegol Sbaeneg yr Ariannin, nid acenion traddodiadol Sbaeneg Sbaen – er bod Sbaeneg Andalucía a Chanario (Yr Ynysoedd Dedwydd) hefyd yn gweld patrwm tebyg gyda'r /s/ (Coloma 2011). Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried acen o fewn yr un I1 hefyd. Byddai ymchwil bellach yn medru taflu goleuni ar y cyd-destun y mae'r patrwm hwn yn codi ynddo ac ymysg pa fath o ddysgwyr.

4.2 Goblygiadau i'r maes ac yn ehangach

Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnig goblygiadau pwysig ar gyfer addysgu Cymraeg yn y sector Dysgu Cymraeg yng Nghymru yn ogystal â mewn perthynas â Chynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut. Mae ymchwil flaenorol ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg wedi ymwneud â siaradwyr I1 Saesneg yn unig. Un awgrym i'r sector yng Nghymru fyddai casglu data ar gefndir ieithyddol dysgwyr er mwyn rhoi trosolwg gwerthfawr o'r niferoedd a'r amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol sy'n bodoli. Manteision amlwg casglu'r wybodaeth hon fyddai medru adnabod pa heriau ynganu sy'n arbennig i rai grwpiau ieithyddol penodol neu sy'n gyffredin i lawer o ieithoedd. Trwy hynny, byddai modd darparu'r wybodaeth fwyaf cywir i ddylunwyr cyrsiau, hyfforddwyr a gweithwyr eraill yn y maes er mwyn datblygu'r adnoddau a'r hyfforddiant i diwtoriaid. Byddai hyfforddiant o'r fath yn elwa'n fawr o gynnwys dulliau ymarferol o egluro a dangos y mecanwaith cynanu er mwyn tynnu sylw at sut yn union y cynhyrchir y seiniau. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr o'u

hanawsterau ynganu yn awgrymu bod angen datblygu ‘ymwybyddiaeth ffonolegol’ fel rhan o’r cwricwlwm (Mac Giolla Chríost et al. 2012: t. 65). Fel y nododd Brake (2012), gallai tacsonomeg o heriau llafar cyffredin fod yn sail ddefnyddiol i waith cynllunio pedagogaid.

Mae canfyddiadau’r astudiaeth hon yn cynnig goblygiadau pwysig ar gyfer addysgu Cymraeg ym Mhatagonia hefyd. Yn gyntaf, mae’n amlwg fod magu ymwybyddiaeth o heriau ynganu siaradwyr I1 Sbaeneg yr Ariannin yn hanfodol i athrawon o Gymru sy’n mynd i weithio yno. Yn ail, byddai buddsoddi mewn adnoddau ynganu a hyfforddiant ynganu wedi ei deilwra ar gyfer y Wladfa, gan ystyried y gwahaniaethau penodol rhwng systemau ffonolegol y Gymraeg a’r Sbaeneg (fel y disgrifiwyd gan Coloma (2011, 2018)), yn angenrheidiol er mwyn sicrhau nad oes elfennau neo-drefedigaethol i Gynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut, fel yr awgrymir gan Rees (2023, tt. 111–2 a throednodyn 50). Yn sgil presenoldeb cynyddol acenion o Gymru drwy waith y Cynllun a diffyg amlygiad dysgwyr i siaradwyr iaith gyntaf yn y Wladfa, manteisiol o bosibl fyddai mabwysiadu cysyniad Derwing a Munro (2015) o ddealladwyedd (*intelligibility*) yn y dosbarthiadau Cymraeg ac ystyried sut y gellid ehangu ar gyfleoedd rhyngweithio dysgwyr y Wladfa â siaradwyr I1 y Wladfa.

4.3 Cyfyngiadau ac ymchwil bellach

Yn gyntaf, mae’r ymchwil hon yn gosod sail gadarn i astudiaethau pellach ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg ac mae’n ehangu dealltwriaeth o brofiadau dysgu ac addysgu Cymraeg yn y Wladfa. Mae maint gweddol fychan y sampl yn cyfyngu ar gyffredinoliad y canfyddiadau. Er bod y data’n rhoi mewnwelediad gwerthfawr i’r sefyllfa, nid oes modd dweud bod canlyniadau’r ymchwil yn gallu cael eu cyffredinoli ar draws tiwtoriaid a dysgwyr. Byddai ymchwil yn y dyfodol yn elwa o gynnwys mwy o gyfranogwyr ar draws ystod ehangach o lefelau iaith a chefnidiroedd ieithyddol, ond mae’n bwysig ystyried cynrychiolaeth cymharol uchel y boblogaeth o diwtoriaid a dysgwyr. Hefyd, mae’n bwysig ystyried y gall holiaduron fod yn gyfyngedig o ran natur (Dörnyei 2010) ac mae’r defnydd o ddull hunanwerthuso i asesu’r gallu i ynganu yn cyfyngu ar oddrychedd y canlyniadau. Fel y dangosodd yr astudiaeth hon, yn ogystal ag astudiaeth Williams a Cooper (2021), gall fod gwahaniaeth sylweddol rhwng canfyddiad dysgwyr o’u hynganu a chanfyddiadau’r tiwtoriaid (Rees a Morris 2018). Byddai dadansoddiad acwstig o ynganiad dysgwyr yn darparu data mwy gwrthrychol er mwyn gallu cymharu cynanu siaradwyr Cymraeg o Gymru a’r Wladfa.

Byddai astudiaethau hydredol (*longitudinal*) hefyd yn werthfawr er mwyn olrhain datblygiad ynganu dros amser. Gallai hyn adeiladu ar waith Jones (1984) a Rees (2021), gan wahaniaethu rhwng effeithiau cyffredinol trosglwyddo ieithyddol ac effaith benodol y dafodiaith/iaith gyntaf ar gaffael y Gymraeg.

Yn olaf, o ystyried yr amrywiaeth o ffactorau sy’n dylanwadu ar gaffael seiniau mewn ail iaith (Piske et al., 2001; Derwing a Munro 2015), byddai’n werth archwilio rôl ffactorau fel oedran dechrau dysgu, amlygiad i’r Gymraeg, profiad ieithyddol tiwtoriaid, a rhyngweithio cymdeithasol yn y gymuned Gymraeg ym Mhatagonia.

5. Casgliad

Amcan yr astudiaeth hon oedd archwilio profiadau dysgu ac addysgu ynganu'r Gymraeg yn y Wladfa. Ar sail y data a gasglwyd mewn holiaduron a grwpiau ffocws gyda thiwtoriadaid a dysgwyr y Gymraeg yn y Wladfa, Patagonia, un o'r mewnwelediadau amlycaf i'r ymchwil hwn yw nad yw dysgwyr a thiwtoriadaid o reidrwydd yn cyd-weld o ran yr hyn sy'n heriol wrth ddysgu seiniau'r Gymraeg. Mae'r dysgwyr ar y cyfan yn mynegi hyder wrth ynganu pob sain a ddynodwyd yn heriol gan y tiwtoriaid. Awgrymir felly fod canfyddiad seiniau yn elfen bwysig i'w hystyried yn y broses o ddysgu ac addysgu iaith, a bod amrywioldeb cefndir ieithyddol y tiwtoriaid eu hunain yn medru chwarae rôl yma hefyd.

Amlygir gyda chanlyniadau'r ymchwil hon hefyd nad yw dysgwyr I1 Sbaeneg yr Ariannin yn profi'r un heriau ynganu yn y Gymraeg â dysgwyr I1 Saesneg yng Nghymru. Gyda hyn, pwysleisir pwysigrwydd hanfodol ystyried iaith gyntaf y dysgwr yn ei gaffaeliad o'r iaith. Atega hyn at sail yr ymchwil yn y maes caffael seiniau ail iaith fod ieithoedd cyntaf gwahanol yn effeithio ar yr ail iaith mewn ffyrdd gwahanol. Dyma'r ymchwil gyntaf o'i bath sy'n edrych ar heriau ynganu dysgwyr y Gymraeg sydd ag iaith gyntaf wahanol i'r Saesneg. Mae'r heriau ynganu ymysg siaradwyr I1 Sbaeneg yr Ariannin yn seiliedig ar seiniau nad ydynt yn bodoli yn y Sbaeneg, megis /l/ <ll>, /χ/ <ch> ac <v> /f/, ac ar y gwahaniaethau mewn cynhyrchu cytseiniaid megis ffrwydrolion. Yn sgil y wybodaeth newydd hon awgrymir y dylai'r sector Dysgu Cymraeg yng Nghymru fuddsoddi mewn ymchwil bellach ar ieithoedd cyntaf dysgwyr y Gymraeg er mwyn dod i ddeall yn well beth yw'r berthynas rhwng I1 y dysgwr a chaffael seiniau'r Gymraeg.

Hefyd, rhoddir pwyslais ar ddatblygu adnoddau a hyfforddiant seinegol i diwtoriaid, a theilwra'r rhain hefyd at ddibenion cyd-destun cymdeithasol a diwylliannol penodol y Wladfa, megis drwy hyfforddi tiwtoriaid o Gymru nad oes ganddynt o bosibl unrhyw wybodaeth o'r Sbaeneg.

Agora canlyniadau'r ymchwil hon gil y drws ar brofiadau dysgwyr sydd â I1 wahanol i'r Saesneg mewn cyd-destun dysgu Cymraeg y tu allan i Gymru, gan herio ein dealltwriaeth o'r hyn yw heriau ynganu'r 'dysgwr Cymraeg' traddodiadol, gan ddarparu gwybodaeth werthfawr i natur caffael iaith mewn cymunedau lleiafrifol ledled y byd.

Diolchiadau

Hoffai'r awduron estyn eu diolchiadau cynhesaf i'r tiwtoriaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hon am eu hamser, eu brwdfrydedd a'u parodrwydd i rannu eu profiadau dysgu. Diolch hefyd i'r dysgwyr a lenwodd yr holiaduron ac i'r rheiny a aeth i drafferth i ddosbarthu'r holiaduron.

6. Llyfryddiaeth

Andrews, H. (2011), 'Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru', *Gwerddon*, 9, 37–58. <<https://doi.org/10.61257/MSSP6932>>
Baker, C. et al. (2011), 'Adult language learning: a survey of Welsh for Adults in the

- context of language planning', *Evaluation & Research in Education*, 24 (1), 41–59.
[<https://doi.org/10.1080/09500790.2010.526204>](https://doi.org/10.1080/09500790.2010.526204)
- Ball, M., a Williams, B. (2021), *Welsh Phonetics* (Lampeter: Edwin Mellen Press).
- Banegas, D. L., a Roberts, G. (2022), “‘If we don’t study the language, the history will be lost’: Motivation to learn Welsh in Argentine Patagonia”, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25 (3), 1137–50.
[<https://doi.org/10.1080/13670050.2020.1742651>](https://doi.org/10.1080/13670050.2020.1742651)
- Bell, E. et al. (2021), ‘Northern Welsh’, *Journal of the International Phonetic Association*, 1–24. [<https://doi.org/10.1017/S0025100321000165>](https://doi.org/10.1017/S0025100321000165)
- Bell, E. A. (2017), ‘Perception of Welsh vowel contrasts by Welsh-Spanish bilinguals in Argentina’, *Proceedings of the Linguistic Society of America*, 2 (11), 1–9.
[<https://doi.org/10.3765/plsa.v2i0.4051>](https://doi.org/10.3765/plsa.v2i0.4051)
- Brake, P. (2012), ‘Astudiaeth gychwynnol o wallau iaith llafar dysgwyr Cymraeg i oedolion profiadol’, *Gwerddon*, 12, 24–52. [<https://doi.org/10.61257/YGJK4106>](https://doi.org/10.61257/YGJK4106)
- Braun, V., a Clarke, V. (2008), ‘Using thematic analysis in psychology’, *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2), 77–101. [<https://doi.org/10.1191/1478088706qp0630a>](https://doi.org/10.1191/1478088706qp0630a)
- Campos-Astorkiza, R. (2012), ‘The Phonemes of Spanish’, yn Hualde, J. I., Olarra, A., ac O’Rourke, E. (gol.), *The Handbook of Hispanic Linguistics* (John Wiley & Sons, Inc.)
[<https://doi.org/10.1002/9781118228098>](https://doi.org/10.1002/9781118228098)
- Coloma, G. (2011), ‘Caracterización fonética de las variedades regionales del español y propuesta de transcripción simplificada’, *Revista de Filología Románica*, 28, 11–27.
[<https://doi.org/10.5209/rev_RFRM.2011.v28.37217>](https://doi.org/10.5209/rev_RFRM.2011.v28.37217)
- Coloma, G. (2018), ‘Argentine Spanish’, *Journal of the International Phonetic Association*, 48 (2), 243–50. [<https://doi.org/10.1017/S0025100317000275>](https://doi.org/10.1017/S0025100317000275)
- Cooper, S. E., ‘Intonation in Anglesey Welsh’, traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2015.
- Cooper, S. (2020), ‘Llafariaid’, yn Cooper, S., ac Arman, L. (goln), *Cyflwyniad i ieithyddiaeth, Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Ar gael ar:* [<https://www.porth.ac.uk/cy/collection/cyflwyniad-i-ieithyddiaeth>](https://www.porth.ac.uk/cy/collection/cyflwyniad-i-ieithyddiaeth) [Cyrchwyd: 16 Ionawr 2026]
- Cyngor Prydeinig Cymru (2018), *Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut: Adroddiad Blynnyddol 2018*. Ar gael ar: [<https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project>](https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project) [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Cyngor Prydeinig Cymru (2019), *Cynllun yr Iaith Gymraeg yn Chubut: Adroddiad Blynnyddol 2019*. Ar gael ar: [<https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project>](https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project) [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Cyngor Prydeinig Cymru (2020), *Report on the Welsh Language Project, Patagonia 2020*. Ar gael ar: [<https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project>](https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project) [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Cyngor Prydeinig Cymru (2024), *Report on the Welsh Language Project, Patagonia 2024*. Ar gael ar: [<https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project>](https://wales.britishcouncil.org/en/programmes/education/welsh-language-project)

- [project](#)> [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Derwing, T. M., a Munro, M. J. (2015), *Pronunciation fundamentals: Evidence-based perspectives for L2 teaching and research* (Amsterdam, Philadelphia: John Benjamins B.V.).
- Dörnyei, Z., a Taguchi, T. (2010), *Questionnaires in Second Language Research: Construction, Administration and Processing*, 2^{il} argraffiad (Hoboken: Taylor & Francis).
- Edley, E., a Litosseliti, L. (2022), 'Critical perspectives on using interviews and focus groups', yn Litosseliti, L. (gol.), *Research methods in linguistics*, 2^{il} argraffiad (London: Bloomsbury Publishing).
- Flege, J. E. (1995), 'Second language speech learning: Theory, findings and problems', yn Strange, W. (gol.), *Speech perception and linguistic experience: Issues in cross-language research* (York Press), tt. 233–77.
- <<https://www.researchgate.net/publication/333815781>> [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Hannahs, S. J. (2013), *The Phonology of Welsh* (Croydon: Oxford University Press).
- <<https://doi.org/10.1093/acprof:oso/9780199601233.001.0001>>
- Herrero de Haro, A. (2016), 'The acquisition of Spanish pronunciation by Welsh learners: Transfer from a regional variety of English into Spanish', *Círculo de Lingüística Aplicada a la Comunicación*, 65, 169–98. <https://doi.org/10.5209/rev_CLAC.2016.v65.51985>
- Jones, R. O. (1984), 'Change and variation in the Welsh of Gaiman, Chubut', yn Ball, M. J., a Jones, G. E. (goln), *Welsh Phonology* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), 237–61.
- Krueger, R. A., a Casey, M. A. (2015), *Focus groups: a practical guide for applied research*, 5^{ed} argraffiad (Thousand Oaks, California: SAGE), tt. 63–84.
- Mac Giolla Chríost, D. et al. (2012), *Welsh for Adults teaching and learning approaches, methodologies and resources: A comprehensive research study and critical review of the way forward* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).
- Mayr, R., a Davies, H. (2011), 'A cross-dialectal acoustic study of the monophthongs and diphthongs of Welsh', *Journal of the International Phonetic Association*, 41 (1), 1–25.
- <<https://doi.org/10.1017/S0025100310000290>>
- Müller, N., a Ball, M. J. (1999), 'Examining the acquisition of Welsh phonology in L1 English speakers', *Journal of Celtic Language Learning*, 4, 16–32.
- Piske, T., MacKay, I. R. A., a Flege, J. E. (2001), 'Factors affecting degree of foreign accent in an L2: a review', *Journal of Phonetics*, 29 (2), 191–215.
- <<https://doi.org/10.1006/jpho.2001.0134>>
- Pulman-Slater, J., 'Caffaeliad prosodig ymhlith dysgwyr brodorol ac anffodorol y Gymraeg: astudiaeth o aceniad geirfaol a goslef frawddegol', traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd, 2023.
- Rees, I. W. (2021), 'Hispanicization in the Welsh settlement of Chubut Province, Argentina', yn Perez, D. Maria, a Sippola, E. (goln), *Postcolonial Language Varieties in the Americas* (Berlin, Boston: De Gruyter), tt. 237–68. <<https://doi.org/10.1515/9783110723977-008>>

- Rees, I. W., a Morris, J. (2018), ‘Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion o anawsterau ynganu ymhlith dysgwyr yr iaith’, *Gwerddon*, 27, 39–66.
<<https://doi.org/10.61257/KYKM2333>>
- Rees, I. W. (2023), “‘Un o fethiannau godidocaf’ puryddiaeth ieithyddol? Dadansoddiad o batrymau geirfaol Cymraeg y Wladfa heddiw mewn cyd-destun hanesyddol’, *Gwerddon*, 36, 87–117. <<https://doi.org/10.61257/HZXS4457>>
- Sleeper, M. (2020), ‘Contact effects on voice-onset time (VOT) in Patagonian Welsh’, *Journal of the International Phonetic Association*, 50 (2), 153–67.
<<https://doi.org/10.1017/S002510031800021X>>
- Sleeper, M. T. (2015), ‘Contact effects on voice-onset time (VOT) in Patagonian Welsh’, traethawd MA, Prifysgol UC Santa Barbara, California.
<<https://escholarship.org/uc/item/9014s1mf>> [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Van Leussen, J-W., ac Escudero, P. (2015), ‘Learning to Perceive and Recognize a Second Language: The L2LP Model Revised’, *Frontiers in Psychology*, 6 (1000), 1–12.
<<https://www.frontiersin.org/journals/psychology/articles/10.3389/fpsyg.2015.01000/full>> [Cyrchwyd: 2 Mawrth 2026]
- Williams, M., a Cooper, S. (2021), ‘Adult new speakers of Welsh: Accent, pronunciation and language experience in South Wales’, *Languages*, 6 (2), 86.
<<https://doi.org/10.3390/languages6020086>>

Atodiad 1 - Holiadur

Cwestiynau cefndirol *Preguntas básicas*

- **Rhyw: Beth yw eich rhyw? Género: ¿Cuál es su género?**
 - ☐ Benywaidd *Mujer*
 - ☐ Gwrywaidd *Hombre*
 - ☐ Arall *Otro*
 - ☐ Mae'n well gen i beidio dweud *Prefero no decir*

- **Byw: Ydych chi'n byw yn nhalaith Chubut? Domicilio: ¿Vive en la provincia de Chubut?**
 - ☐ Ydw *Sí*
 - ☐ Nac ydw, dw i'n byw yn: ... *No, vivo en: ...*

- **Ydych chi ar gwrs Cymraeg ar hyn o bryd (neu wedi bod ar gwrs eleni)?**
¿Está haciendo un curso de galés ahora (o ha hecho un curso este año?)
 - ☐ Ydw *Sí*
 - ☐ Nac ydw *No*

- **Beth yw lefel eich cwrs neu ar be lefel ydych chi? Gallwch ofyn i'ch tiwtor os nad ydych yn siŵr.**
¿Cuál es el nivel del curso o en qué nivel está? Puede preguntar a su profesor si no está seguro.
 - ☐ Mynediad (A1)
 - ☐ Sylfaen (A2)
 - ☐ Canolradd (B1)
 - ☐ Uwch (B2)
 - ☐ Dw i ddim yn gwybod *No sé*

- Sawl awr yr wythnos ydych chi'n astudio'r Gymraeg (mewn dosbarth a/neu hunanastudio)?

¿Cuántas horas a la semana dedica usted a estudiar galés (de forma presencial y/o por su cuenta)?

- ☐ Llai na 2 awr *Menos de dos horas*
- ☐ 2–4 awr *2–4 horas*
- ☐ Dros 5 awr *Más de cinco horas*

- Eich cefndir dysgu Cymraeg. Ticiwch bob un sy'n berthnasol i chi.

Su experiencia aprendiendo galés. Marcar todas las opciones que correspondan.

- ☐ Dysgais Gymraeg yn y cartref/gan fy nheulu. *Aprendí galés en la casa/con mi familia.*
- ☐ Dysgais Gymraeg yn yr ysgol. *Aprendí galés en la escuela.*
- ☐ Dechreuais ddysgu Cymraeg fel oedolyn. *Empecé a estudiar galés como adulto/a.*
- ☐ Dw i wedi cael fy nysgu gan diwtoriaid lleol (o'r Ariannin). *Me enseñaron profesores locales (de Argentina).*
- ☐ Dw i wedi cael fy nysgu gan diwtoriaid o Gymru. *Me enseñaron profesores de Gales.*
- ☐ Dysgais Gymraeg yn annibynnol fel oedolyn. *Aprendí galés por mi cuenta como adulto/a.*
- ☐ Dw i wedi bod ar gwrs/gyrsiau iaith yng Nghymru. *Hice curso(s) en Gales.*
- ☐ Dw i wedi byw am gyfnod yng Nghymru (dros 3 mis). *Viví en Gales un tiempo (más de 3 meses).*

- Pa ieithoedd eraill ydych chi'n ei siarad? Ac i ba lefel?

¿Qué otros idiomas habla? ¿En qué nivel?

- ☐ Sbaeneg *castellano* dechreuwr/canolradd/uwch/iaith gyntaf
- ☐ Saesneg *inglés* principiante/intermedio/avanzado/nativo
- ☐ Eidaleg *italiano*
- ☐ Portiwgaleg *portugués*
- ☐ Arall. Rhowch fanylion: *Otro (idioma/nivel)*

Dysgu Cymraeg Aprender galés

- Yn y rhan hon byddaf yn gofyn i chi am seiniau'r Gymraeg. Nodwch pa mor hyderus ydych chi'n ynganu'r seiniau hyn yn y Gymraeg. Ticiwch y bocs sy'n berthnasol i chi.

Esta parte consiste en preguntas sobre los sonidos del galés. Marcar qué tan seguro se siente al pronunciar estos sonidos. Marcar el cuadro que corresponde.

	Pa mor hyderus ydych chi'n ynganu'r seiniau hyn? <i>¿Qué tan seguro se siente al pronunciar estos sonidos?</i>				
	hyderus iawn <i>muy seguro/a</i>	hyderus <i>seguro/a</i>	ddim yn siŵr <i>no sé</i>	ddim yn hyderus <i>no tan seguro/a</i>	ddim yn hyderus o gwbl <i>para nada seguro/a</i>
'sg' fel yn/ <i>como en</i> : <i>cysgu, ysgol</i>					
'y' fel yn/ <i>como en</i> : <i>yr ysgol, fy</i>					
'dd' fel yn/ <i>como en</i> : <i>heddiw, ffordd</i>					
'd' fel yn/ <i>como en</i> : <i>cerdded, da</i>					
't' fel yn / <i>como en</i> : <i>teulu, tatws</i>					

‘th’ fel yn / <i>como en:</i> <i>cathod</i>					
‘c’ fel yn / <i>como en:</i> <i>coſio, capel</i>					
‘g’ fel yn / <i>como en:</i> <i>gwrando, cig</i>					
‘ll’ fel yn / <i>como en:</i> <i>llaw</i>					
‘h’ fel yn / <i>como en:</i> <i>helo</i>					
‘ch’ fel yn / <i>como en:</i> <i>chwilio, coch</i>					
‘p’ fel yn / <i>como en:</i> <i>pasta neu helpu</i>					
‘b’ fel yn / <i>como en:</i> <i>bwyd, ateb</i>					
‘f’ fel yn / <i>como en:</i> <i>afon, fideo</i>					

‘u’ fel yn / <i>como en</i> : <i>dydd Iau, un</i>					
‘rh’ fel yn / <i>como en</i> : <i>rhedeg</i>					

- Unrhyw sylwadau eraill. Defnyddiwch y blwch hwn er mwyn nodi unrhyw beth arall hoffech chi rannu am ynganu seiniau yn y Gymraeg neu er mwyn ymhelaethu ar un o’r cwestiynau yn yr holiadur hwn. *Observaciones adicionales. Utilice este cuadro para agregar cualquier otra cosa que quiera compartir sobre los sonidos del galés o sobre alguna de las preguntas en esta encuesta.*

Diolch yn fawr am gymryd yr amser i lenwi’r holiadur hwn.

Muchas gracias por su tiempo.